**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**
**Ariannu Prentisiaethau a'r Ardoll Brentisiaethau**

## Cynllun y Polisi Sgiliau Prentisiaethau

1. **Mae Polisi Sgiliau Llywodraeth Cymru yn anelu at sicrhau bod prentisiaethau'n cyd-fynd ag anghenion economi Cymru**, fel bod y system sgiliau'n ymateb i newidiadau yn y diwydiant sy'n galluogi Cymru i gystadlu'n fyd-eang drwy sicrhau bod gweithwyr yn meddu ar sgiliau proffesiynol a thechnegol ar lefel uchel. Strategaeth Llywodraeth Cymru yw buddsoddi mewn hyfforddiant a fydd yn sicrhau enillion economaidd a chymdeithasol; gan fuddsoddi mewn sectorau a galwedigaethau sy'n tyfu er mwyn mynd i'r afael â phrinder a bylchau o ran sgiliau, sy'n atal cynhyrchiant a thwf. Rydym eisoes yn gweithio gyda chyflogwyr i ehangu a chryfhau llwybrau ym meysydd gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM), y diwydiannau digidol, technoleg gwybodaeth, adeiladu a gwasanaethau ariannol.

2. Mae Polisi Sgiliau Prentisiaethau arfaethedig Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r heriau hyn; yn ogystal ag ymrwymo i ddarparu **o leiaf 100,000 o brentisiaethau o ansawdd i bob oedran** dros dymor presennol y Cynulliad, bydd Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu ei buddsoddiadau yn y gwaith a ganlyn:

    - **Mynd i'r afael â phrinder sgiliau** drwy ddatblygu prentisiaethau mewn sectorau sy'n tyfu a galwedigaethau sy'n dod i'r amlwg, yn unol â blaenoriaethau a bennir gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.
    - **Datblygu sgiliau lefel uwch** – canolbwyntio ar brentisiaethau ar lefel 3 ac uwch, yn arbennig yn llwybrau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a gwaith proffesiynol, lle y mae'r enillion yn tueddu i fod yn uwch.
    - **Cynyddu nifer y bobl ifanc 16-19 oed sy'n manteisio ar brentisiaethau,** gan adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi prentisiaid iau
    - Darparu nifer fwy o brentisiaethau **drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'n ddwyieithog.**

3. I gyflawni'r blaenoriaethau hyn, byddwn yn **cynyddu ein buddsoddiad mewn prentisiaethau o £96m i £111m ar gyfer 2017-18**. O'r cyllid ychwanegol, bydd £15m yn cael ei fuddsoddi bob blwyddyn; bydd £0.5m gyllid refeniw ychwanegol yn 2017-18 i gomisiynwyr heddlu a throseddu sicrhau nad ydynt o dan anfantais o ganlyniad i'r Ardoll Brentisiaethau. Mae angen prentisiaethau ar draws ystod eang o sectorau. Maent yn dod yn fwyfwy perthnasol i'r sector cyhoeddus o ran cynnal a gwella gwasanaethau cyhoeddus fel: addysg, gwasanaethau tân, rheoli gwastraff, gwasanaethau cymdeithasol, a gofal iechyd. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus i greu ystod o brentisiaethau i weithlu'r gwasanaethau cyhoeddus a fydd yn helpu gyda moderneiddio, arbedion effeithlonrwydd a gwelliannau sydd eu hangen ar draws y sector.

4. **Mae'r £111m yn cynnwys Cyllid Ewropeaidd o £16m** sydd wedi'i sicrhau i ategu buddsoddiadau ychwanegol mewn prentisiaethau yng Nghymru.

**Pam rydym yn newid y patrwm buddsoddi?**

5. Mae cynhyrchiant y DU yn llawer is na chynhyrchiant ein prif gystadleuwyr rhyngwladol, ac roedd Cymru islaw cyfartaledd cynhyrchiant y DU yn 2015 (Gwerth Ychwanegol Gros fesul awr o waith). Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif bod yr Almaen, Ffrainc ac UDA tua thraean yn fwy cynhyrchiol na'r DU yn 2015 (Cynnyrch Domestig Gros prisiau cyfredol fesul awr o waith). Mae'r bwlch cynhyrchiant i'w briodoli'n rhannol i'r ffaith y ceir llai o bwyslais yn y DU ar addysg alwedigaethol lefel uwch a thechnegol sy'n cyfuno hyfforddiant yn y swydd ac o'r swydd. Mae amcanestyniadau'n dangos, dros y degawd nesaf, y bydd tua 5 miliwn o gyfleoedd newydd a chyfleoedd cyfnewid ar gyfer swyddi i weithwyr medrus iawn (gan gynnwys swyddi rheoli a phroffesiynol), a 3.6 miliwn o gyfleoedd ar gyfer swyddi sy'n gofyn am sgiliau canolig (gan gynnwys crefftau medrus a swyddi proffesiynol/technegol cysylltiol)[1].

6. Ar hyn o bryd, mae mwyafrif y rhai sy'n dechrau prentisiaethau i'w cael ar lefel mynediad ac yn dilyn Prentisiaethau Sylfaen ar lefel 2 (43 y cant); mae 35 y cant yn dilyn Prentisiaethau (lefel 3); ac mae 21 y cant yn dilyn Prentisiaethau Uwch (lefel 4 ac yn uwch)[2]. O'r prentisiaid hyn, mae'r mwyafrif mewn sectorau a galwedigaethau nad ydynt yn flaenoriaeth, er enghraifft ym meysydd gweinyddiaeth fusnes, manwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid.


**Buddsoddi mewn Prentisiaethau o Werth Mawr**

7. Mae Cymru yn ail-gydbwyso'r buddsoddiadau er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag anghenion busnesau Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn symud hyfforddiant prentisiaethau o sectorau cost isel, lle y mae'r cynnwys sgiliau'n gymharol fach a lle nad oes fawr o dystiolaeth o brinder sgiliau, i sectorau o werth mawr. Mae **Ffigur 1** yn dangos sut y mae gwerthoedd cyllid wedi cynyddu ym meysydd peirianneg, adeiladu a gweithgynhyrchu dros dair blynedd. Mae gwybodaeth fwy manwl, fesul sector, ar gael yn **Atodiad A.**

[1] Wilson, R., Beaven, R., May-Gillings, M., Hay, G., a Stevens, J. (2014). Working Futures 2012- 2022. Adroddiad Tystiolaeth 83, Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau, Wath-upon-Dearne.
[2] StatsCymru – 2014/15

**Ffigur 1**

Gwerth (£) y rhaglenni sy'n gymwys i'w hariannu fesul sector, fel % o'r holl sectorau




| | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 * |
|---|---|---|---|
| Peirianneg, adeiladu a gweithgynhyrchu | 29% | 32% | 35% |
| Gofal iechyd & gwasanaethau cyhoeddus | 31% | 29% | 29% |
| Sectorau nad ydym yn eu blaenoriaethu | 19% | 17% | 16% |
| Rheoli & phroffesiynol | 11% | 12% | 12% |
| Sectorau eraill | 9% | 10% | 8% |

8. I gynorthwyo gyda thwf mewn prentisiaethau technegol o werth mawr, rydym yn lleihau prentisiaethau lefel mynediad i'r rhai sy'n hŷn nag 20 oed mewn galwedigaethau nad ydynt yn flaenoriaeth, fel y rhai ym meysydd manwerthu, gweinyddiaeth fusnes a gwasanaethau cwsmeriaid. Nid yw darparu prentisiaethau lefel mynediad sy'n cyfrannu enillion llai yn sgil buddsoddi mewn sgiliau yn creu budd i economi Cymru yn y tymor hir. Manteision cyfyngedig sydd ganddynt yn y farchnad lafur; mae cyfraddau diweithdra ymysg y rhai sydd â chymwysterau lefel 2 yn gymharol uchel ac mae enillion cyflogau yn sgil cymwysterau lefel 2 yn gymharol isel. Bydd angen i gyflogwyr a phrentisiaid ymrwymo i raglenni sydd â'r nod o gyflawni Prentisiaeth lawn yn hytrach na Phrentisiaeth Sylfaen. Bydd y rhaglenni'n cael eu cyfuno i raddau cynyddol fel bod lefel 2 yn cael ei chyflawni fel rhan o'r broses o gwblhau prentisiaeth ar lefel 3.

9. Bydd buddsoddiadau Llywodraeth Cymru yn cael eu harwain i raddau cynyddol gan wybodaeth gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i gyfarwyddo darparwyr prentisiaethau o dan gontract i gyflawni mewn meysydd a flaenoriaethir. Rydym eisoes yn buddsoddi'n helaeth yn y broses o ehangu Prentisiaethau Uwch; gan weithio gyda chanlyniad Adolygiad Diamond, byddwn yn ymestyn buddsoddiadau Prentisiaethau Uwch i bynciau STEM a galwedigaethau technegol.

10. I gynorthwyo gyda thwf, rydym wedi blaenoriaethu'r adolygiad o fframweithiau prentisiaethau uwch presennol i sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn ddeniadol i gyflogwyr, er enghraifft rydym wedi ychwanegu cymwysterau Cenedlaethol Uwch at fframweithiau yn y sector peirianneg y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi. Bydd sicrhau bod y prentisiaethau hyn yn cynnwys cymwysterau y mae cyflogwyr yn eu hadnabod ac yn eu gwerthfawrogi yn annog pobl i fanteisio arnynt.

11. Bydd angen i ddarparwyr a phrifysgolion gydweithio i raddau cynyddol i ddarparu cyrsiau hyblyg; gall fod angen dulliau astudio gwahanol ar wahanol sectorau, cyflogwyr a galwedigaethau, er enghraifft dysgu ar-lein neu rith-ddysgu; rhyddhau 'bloc'; rhyddhau am ddiwrnod; dysgu cyfunol (cyfuno dulliau'r ystafell ddosbarth â dulliau digidol); a charfanau o ddysgwyr sy'n cynnwys prentisiaid yn ogystal â mathau eraill o fyfyrwyr.

12. Bydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru yn ehangu ei gylch gwaith i fonitro'r camau sy'n deillio o'r broses o roi'r Cynllun Gweithredu ar Brentisiaethau ar waith. Bydd hefyd yn rhoi cyngor ynghylch datblygiadau o ran fframweithiau prentisiaethau gyda'r nod o ddarparu uchafswm o 30 o fframweithiau prentisiaethau sy'n perfformio'n dda i ysgogi economi Cymru. Bydd Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn cyfrannu at y broses hon gan ein helpu i ddarparu buddsoddiadau uniongyrchol i sectorau a flaenoriaethir ac ysgogi twf lleol a rhanbarthol.

**Yr Ardoll Brentisiaethau**

13. **Treth gyflogaeth gan Lywodraeth y DU yw Ardoll Brentisiaethau y DU**, y disgwylir iddi ddod i rym ar 6 Ebrill 2017. Bydd pob cyflogwr (Cyhoeddus a Phreifat) sydd â bil cyflogau o fwy na 3 miliwn y flwyddyn yn talu'r ardoll. Mae cyfradd yr ardoll yn cyfateb i 0.5% o fil cyflogau'r cyflogwr, ar sail cyfanswm enillion gweithwyr, ac eithrio taliadau, fel buddion ar ffurf nwyddau neu wasanaethau. Bydd gan gyflogwyr lwfans ardoll o £15,000 y flwyddyn i'w wrthbwyso yn erbyn yr ardoll, a delir i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi drwy'r broses talu wrth ennill (PAYE).

14. Mae Cymru yn cael cyllid canlyniadol Barnett o'r gwariant ar brentisiaethau yn Lloegr a ariennir gan yr Ardoll Brentisiaethau, ac felly hefyd Gogledd Iwerddon a'r Alban. Ar gyfer 2017/18 a 2018/19, nid yw hyn yn cynrychioli cyfran o'r ardoll a ragwelir yn seiliedig ar boblogaeth, ac i gydnabod hyn mae'r Trysorlys wedi darparu swm bach o gyllid ychwanegol yn y blynyddoedd hyn. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r addasiad hwnnw, mae'r cyllid ychwanegol hwn wedi'i wrthbwyso i raddau helaeth gan gyllid canlyniadol Barnett negyddol sy'n deillio o'r ffaith y rhoddir terfyn ar wario ar raglenni prentisiaethau mewn mannau eraill yn adrannau perthnasol Whitehall. **Gyda'i gilydd, o gyfuno hyn â'r baich ariannol ychwanegol y bydd yr ardoll yn ei roi ar gyflogwyr yn y sector cyhoeddus, ni fydd dim cyllid ychwanegol amlwg ar gael i Gymru o ganlyniad i'r ardoll.**

15. Nid ymgynghorwyd â Chymru, na'r Alban na Gogledd Iwerddon, ynghylch cyflwyno'r ardoll, ei chwmpas, a'r gyfradd.

16. Yng Nghymru, byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn prentisiaethau ar lefelau uwch mewn meysydd technegol a sectorau â blaenoriaeth, fel bod y cyflogwyr sy'n talu'r ardoll yn gallu cael gafael ar yr hyfforddiant gorau. Bydd Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn ymgynghori â'r cyflogwyr sy'n talu'r ardoll i ganfod y galw am sgiliau sy'n deillio o'r ardoll ac yn sicrhau eu bod wedi'u cynrychioli'n llawn fel rhan o'r asesiadau sgiliau y maent yn eu llunio'n flynyddol. Bydd eu cynlluniau'n cael dylanwad ar ble y byddwn yn buddsoddi.

17. Byddwn yn cefnogi buddsoddiadau mewn prentisiaethau ym maes hyfforddiant y sector cyhoeddus, fel y nodwyd eisoes yn y papur hwn. Bydd yr ardoll yn cael effaith anghymesur ar sector cyhoeddus Cymru; mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y bydd yn rhaid i gyflogwyr sector cyhoeddus Cymru dalu £30m y flwyddyn i Drysorlys y DU.

**Cyfathrebu a Chymorth**

18. Er mwyn ffurfioli'r prosesau o ymgysylltu â chyflogwyr, rydym yn sefydlu tîm o gynghorwyr sy'n gallu cynorthwyo cyflogwyr i ganfod effaith yr ardoll a chyda'r dull o ddiwallu eu hanghenion o ran prentisiaethau – pan fyddant yn cyd-fynd â'n sectorau blaenoriaeth. Bydd y tîm hwn yn asesu sut y mae prentisiaethau presennol yn diwallu anghenion cyflogwyr a sut y gall cyflogwyr fanteisio i'r eithaf ar y cyllid gan Lywodraeth Cymru. Pan fo tystiolaeth bod angen adolygu cynnwys prentisiaethau, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i wneud hynny.

19. Byddwn yn cyhoeddi canllaw ffeithiol ar y cyfleoedd i'r rhai sy'n talu'r ardoll yng Nghymru, sy'n nodi ein dull gweithredu o ran polisi yng Nghymru. Cafodd y canllaw drafft ei rannu â'r CBI, sy'n cefnogi ein negeseuon arfaethedig ynghylch yr ardoll.

20. Mae darparwyr prentisiaethau a chanddynt gontract wedi enwebu cydgysylltydd ar gyfer yr ardoll brentisiaethau a fydd yn cael gwybodaeth gan yr Uned Brentisiaethau ac yn anfon y staff priodol i weithio gyda chyflogwyr ar yr anghenion recriwtio ar gyfer prentisiaethau. Rydym yn cynnal cyfarfodydd ar hyn o bryd rhwng cydgysylltwyr yr ardoll brentisiaethau a'r Uned Brentisiaethau.

21. Bu cryn ymgysylltu â chyflogwyr a chyrff cynrychioli, fel y CBI. Hyd yn hyn, rydym wedi cael mwy na 200 o ymholiadau am yr ardoll ac mae'r swyddogion yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr a chyrff sectorau i sicrhau eu bod yn deall ein dull gweithredu yng nghyswllt prentisiaethau yng Nghymru.

22. O ran y cyflogwyr hynny sy'n talu'r ardoll ac sy'n gweithredu rhwng gwledydd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i gytuno ar safbwynt cyffredin. Byddwn yn rhoi prosesau newydd ar waith sy'n cydnabod eu hanghenion ac yn darparu eglurder.

23. Yn Lloegr, bydd angen i gyflogwyr sy'n talu'r ardoll ddewis darparwyr hyfforddiant eu hunain a chytuno ar bris am yr hyfforddiant. Yng Nghymru, byddwn yn darparu cyllid yn uniongyrchol i ddarparwyr sy'n gweithio gyda chyflogwyr i ganfod eu hanghenion a chytuno ar becyn hyfforddiant i ddiwallu'r anghenion hynny.

**Diwallu anghenion yr Economi Sylfaen**

24. Bydd yr ymdrech i ddatblygu a darparu prentisiaethau ar lefelau uwch, mewn meysydd technegol a sectorau blaenoriaethol, yn golygu ein bod yn symud i ffwrdd o brentisiaethau lefel is. Rydym yn cydnabod y bydd gan gyflogwyr, er hynny, anghenion datblygu'r gweithlu am raglenni hyblyg a thymor byr yn y meysydd nad ydym yn eu blaenoriaethu, fel manwerthu, gweinyddiaeth fusnes, a gwasanaethau cwsmeriaid.

25. Er mwyn mynd i'r afael â'u hanghenion nhw, rydym yn ystyried sut y gallwn fynd i'r afael â bylchau o ran sgiliau, ac anghenion hyfforddi cyflogwyr presennol, pan nad yw prentisiaeth lawn yn briodol, o bosibl. Byddai angen i hyfforddiant o'r fath fodloni safonau'r diwydiant a sicrhau gwerth i gyflogeion a chyflogwyr fel ei gilydd. Pan fo'r dewisiadau a'r hyblygrwydd cychwynnol wedi'u llunio, rydym yn disgwyl ymgynghori â chyflogwyr a phartïon eraill sydd â buddiant.

**Atodiad A**
Mae'r atodiad hwn yn darparu gwybodaeth gefndir am fuddsoddiadau mewn prentisiaethau, a nifer y rhaglenni prentisiaeth a fu ar waith dros y 3 blynedd ddiwethaf. Sylwch nad oes modd cymharu'r ddwy gyfres o ddata'n uniongyrchol; darperir ffigurau buddsoddi ar sail blwyddyn gontract tra bo niferoedd y rhaglenni'n ymwneud â'r rhai sydd ar waith ar unrhyw adeg yn y flwyddyn academaidd.

**Buddsoddiadau fesul sector a lefel – Rhaglenni Prentisiaethau sy'n gymwys[3] i gael cyllid, fesul sector, blwyddyn academaidd 2015/16 (Data dros dro)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Sector** | **Sylfaen** | **Prentisiaeth** | **Prentisiaeth Uwch** |
| Amaethyddiaeth | £ 833,047 | £ 595,376 | £ 356,168 |
| Gweinyddiaeth fusnes | £ 2,957,649 | £ 3,132,297 | £ 1,067,998 |
| Adeiladu | £ 7,516,960 | £ 8,211,494 | £ 78,190 |
| Peirianneg | £ 4,613,189 | £ 8,299,753 | £ 243,805 |
| Gwallt a harddwch | £ 2,350,482 | £ 1,089,854 | £ 5,541 |
| Lletygarwch | £ 2,182,804 | £ 1,147,248 | £ 73,366 |
| Hamdden, chwaraeon a theithio | £ 577,825 | £ 658,787 | £ - |
| Rheoli a phroffesiynol | £ 931,608 | £ 1,540,929 | £ 7,877,233 |
| Gweithgynhyrchu | £ 1,053,787 | £ 221,567 | £ 32,200 |
| Y cyfryngau a dylunio | £ - | £ 161,414 | £ 2,802 |
| Manwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid | £ 2,650,773 | £ 1,085,096 | £ - |
| Trafnidiaeth | £ 179,721 | £ 64,202 | £ - |
| Iechyd a gofal cymdeithasol (Gofal oedolion / i'r henoed) | £ 5,789,970 | £ 4,448,990 | £ 37,213 |
| Gofal, dysgu a datblygu plant | £ 735,300 | £ 2,264,592 | £ 4,451 |
| Pob maes iechyd a gwasanaethau cyhoeddus arall | £ 268,322 | £ 1,361,490 | £ 10,204,152 |

Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) – Llywodraeth Cymru

[3] Mae'r tabl yn dangos gwerth y gwaith o ddarparu prentisiaethau y gellir ei ariannu. Fodd bynnag, pan fo contractwr yn darparu mwy na gwerth ei gontract, byddai'r cyllid yn cael ei gyfyngu i werth y contract. Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) – Llywodraeth Cymru

**Buddsoddiadau fesul sector a lefel – Rhaglenni Prentisiaethau sy'n gymwys[4] i gael cyllid, fesul sector, blwyddyn academaidd 2014/15**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Sylfaen** | | **Prentisiaeth** | | **Prentisiaeth Uwch** |
| Hamdden, chwaraeon a theithio | £ | 732,647 | £ | 985,957 | £ | - |
| Gwallt a harddwch | £ | 2,820,606 | £ | 1,454,154 | £ | - |
| Adeiladu | £ | 8,491,959 | £ | 8,301,930 | £ | 828 |
| Trafnidiaeth | £ | 236,148 | £ | 58,444 | £ | - |
| Peirianneg | £ | 5,935,539 | £ | 8,746,061 | £ | 226,004 |
| Gweinyddiaeth fusnes | £ | 3,928,193 | £ | 3,763,981 | £ | 576,372 |
| Y cyfryngau a dylunio | £ | 1,874 | £ | 238,154 | £ | - |
| Manwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid | £ | 3,486,750 | £ | 1,500,528 | £ | - |
| Gweithgynhyrchu | £ | 1,633,494 | £ | 160,708 | £ | 8,768 |
| Amaethyddiaeth | £ | 1,955,240 | £ | 914,560 | £ | 105,915 |
| Lletygarwch | £ | 3,246,428 | £ | 1,633,848 | £ | 71,185 |
| Rheoli a phroffesiynol | £ | 2,139,263 | £ | 3,814,712 | £ | 6,681,110 |
| Iechyd a gofal cymdeithasol (Gofal oedolion / i'r henoed) | £ | 9,459,717 | £ | 7,224,234 | £ | 12,174 |
| Gofal, dysgu a datblygu plant | £ | 1,044,385 | £ | 3,329,951 | £ | 42,433 |
| Pob maes iechyd a gwasanaethau cyhoeddus arall | £ | 298,017 | £ | 1,244,202 | £ | 7,367,656 |

Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) – Llywodraeth Cymru

[4] Mae'r tabl yn dangos gwerth y gwaith o ddarparu prentisiaethau y gellir ei ariannu. Fodd bynnag, pan fo contractwr yn darparu mwy na gwerth ei gontract, byddai'r cyllid yn cael ei gyfyngu i werth y contract.

**Buddsoddiadau fesul sector a lefel – Rhaglenni Prentisiaethau sy'n gymwys[5] i gael cyllid, fesul sector, blwyddyn academaidd 2013/14**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | | **Sylfaen** | | **Prentisiaeth** | | **Prentisiaeth Uwch** |
| Amaethyddiaeth | £ | 1,897,527 | £ | 1,059,664 | £ | 45,843 |
| Gweinyddiaeth fusnes | £ | 4,932,680 | £ | 5,143,875 | £ | 329,964 |
| Adeiladu | £ | 8,654,571 | £ | 6,997,313 | £ | - |
| Peirianneg | £ | 6,113,152 | £ | 8,485,518 | £ | 164,282 |
| Gwallt a harddwch | £ | 3,166,192 | £ | 1,360,456 | £ | - |
| Gofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus | £ | 242 | £ | 774 | £ | - |
| Lletygarwch | £ | 3,402,970 | £ | 1,250,472 | £ | 19,431 |
| Hamdden, chwaraeon a theithio | £ | 869,637 | £ | 1,107,656 | £ | - |
| Rheoli a phroffesiynol | £ | 2,897,959 | £ | 4,438,255 | £ | 4,790,216 |
| Gweithgynhyrchu | £ | 1,901,569 | £ | 121,018 | £ | 570 |
| Y cyfryngau a dylunio | £ | 16,245 | £ | 226,464 | £ | - |
| Manwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid | £ | 4,796,969 | £ | 1,906,368 | £ | - |
| Trafnidiaeth | £ | 458,734 | £ | 70,021 | £ | - |
| Iechyd a gofal cymdeithasol (Gofal oedolion / i'r henoed) | £ | 12,167,594 | £ | 8,872,846 | £ | 23,651 |
| Gofal, dysgu a datblygu plant | £ | 1,385,281 | £ | 3,234,550 | £ | 113,990 |
| Pob maes iechyd a gwasanaethau cyhoeddus arall | £ | 854,163 | £ | 1,553,266 | £ | 6,175,683 |

Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) – Llywodraeth Cymru

[5] Mae'r tabl yn dangos gwerth y gwaith o ddarparu prentisiaethau y gellir ei ariannu. Fodd bynnag, pan fo contractwr yn darparu mwy na gwerth ei gontract, byddai'r cyllid yn cael ei gyfyngu i werth y contract.

## Nifer y Rhaglenni Prentisiaethau fesul Fframwaith Sector a Lefel Rhaglen, 2015/16 (DROS DRO)

| Grŵp Sector Bras | Prentisiaethau Sylfaen | Prentisiaethau | Prentisiaethau Uwch | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth | 255 | 160 | 15 | 435 |
| Adeiladu | 2,215 | 2,390 | 20 | 4,625 |
| Peirianneg | 1,410 | 2,305 | 100 | 3,815 |
| Gweithgynhyrchu | 750 | 160 | 20 | 930 |
| Trafnidiaeth | 90 | 25 | 0 | 115 |
| Rheoli a phroffesiynol | 695 | 1,250 | 4,240 | 6,185 |
| Gweinyddiaeth fusnes | 2,075 | 2,625 | 865 | 5,560 |
| Manwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid | 2,005 | 945 | 0 | 2,950 |
| Hamdden, chwaraeon a theithio | 385 | 635 | 25 | 1,045 |
| Lletygarwch | 1,365 | 765 | 50 | 2,185 |
| Gwallt a harddwch | 1,365 | 620 | 15 | 2,000 |
| Gofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus | 4,125 | 5,570 | 5,390 | 15,085 |
| Y cyfryngau a dylunio | 15 | 75 | 30 | 125 |

Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)

Sylwch: mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r lluosrif 5 agosaf. Mae gwerthoedd nad ydynt yn sero ac sy'n is na 5 wedi'u hepgor ac fe'u dynodir â seren.

## Nifer y Rhaglenni Prentisiaethau fesul Fframwaith Sector a Lefel Rhaglen, 2014/15

| Grŵp Sector Bras | Prentisiaethau Sylfaen | Prentisiaethau | Prentisiaethau Uwch | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth | 320 | 165 | 15 | 500 |
| Adeiladu | 2,525 | 2,430 | * | 4,955 |
| Peirianneg | 1,665 | 2,340 | 70 | 4,075 |
| Gweithgynhyrchu | 985 | 100 | 5 | 1,095 |
| Trafnidiaeth | 155 | 30 | . | 185 |
| Rheoli a phroffesiynol | 1,150 | 1,720 | 3,180 | 6,050 |
| Gweinyddiaeth fusnes | 2,910 | 3,040 | 510 | 6,455 |
| Manwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid | 2,520 | 1,050 | * | 3,570 |
| Hamdden, chwaraeon a theithio | 445 | 490 | 10 | 945 |
| Lletygarwch | 1,670 | 675 | 30 | 2,375 |
| Gwallt a harddwch | 1,550 | 730 | . | 2,275 |
| Gofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus | 5,860 | 5,755 | 4,115 | 15,730 |
| Y cyfryngau a dylunio | 15 | 110 | 5 | 130 |

Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)

Sylwch: mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r lluosrif 5 agosaf. Mae gwerthoedd nad ydynt yn sero ac sy'n is na 5 wedi'u hepgor ac fe'u dynodir â seren.

## Nifer y Rhaglenni Prentisiaethau fesul Fframwaith Sector a Lefel Rhaglen, 2013/14

| Grŵp Sector Bras | Prentisiaethau Sylfaen | Prentisiaethau | Prentisiaethau Uwch | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth | 300 | 170 | 15 | 485 |
| Adeiladu | 2,690 | 2,190 | . | 4,880 |
| Peirianneg | 1,835 | 2,410 | 60 | 4,305 |
| Gweithgynhyrchu | 1,310 | 80 | * | 1,390 |
| Trafnidiaeth | 240 | 30 | . | 270 |
| Rheoli a phroffesiynol | 1,735 | 2,325 | 2,130 | 6,190 |
| Gweinyddiaeth fusnes | 3,370 | 3,475 | 210 | 7,055 |
| Manwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid | 3,310 | 1,300 | . | 4,610 |
| Hamdden, chwaraeon a theithio | 515 | 560 | . | 1,080 |
| Lletygarwch | 2,140 | 750 | 25 | 2,915 |
| Gwallt a harddwch | 1,780 | 755 | . | 2,530 |
| Gofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus | 8,285 | 7,280 | 2,980 | 18,545 |
| Y cyfryngau a dylunio | 20 | 105 | 5 | 130 |

Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)

Sylwch: mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r lluosrif 5 agosaf. Mae gwerthoedd nad ydynt yn sero ac sy'n is na 5 wedi'u hepgor ac fe'u dynodir â seren.